



## Efrydiaeth Ddoethurol Parry Williams mewn Cerddoriaeth

Mae Adran Gerdd, Drama a Pherfformio Prifysgol Bangor (rhan o'r Ysgol Iaith, Diwylliant a'r Celfyddydau) yn gwahodd ceisiadau doethurol am Efrydiaeth Parry Williams mewn Cerddoriaeth.

Bydd yr efrydiaeth yn cynnig bwrsariaeth o £10,000 y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd, fel cyfraniad tuag at ffioedd dysgu a chostau cynhaliadaeth.

Mae'r efrydiaeth wedi ei henwi ar ôl D.E. Parry Williams (1900-1996), Athro Cerddoriaeth cyntaf Bangor. Caiff ei chyllido gan gronfa waddol yn y brifysgol er cof amdano. Disgwylir i'r myfyriwr llwyddiannus fyw ym Mhrifysgol Bangor neu yn y cyffiniau drwy gydol ei astudiaethau a chyflawni dyletswyddau llysgenhadol.

Gwahoddir ceisiadau gan ymgeiswyr eithriadol sydd naill ai'n (1) meddu ar radd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch dda ac sydd ar hyn o bryd yn cwblhau gradd meistr mewn cerddoriaeth, neu sydd (2) eisoes wedi cwblhau gradd meistr mewn cerddoriaeth gyda theilyngdod neu ragoriaeth uchel. Bydd deiliad yr efrydiaeth yn dangos potensial ymchwil rhagorol ym maes cerddoriaeth. Anogir yn arbennig geisiadau i broiectau sy'n dod o fewn cylch gorchwyl diddordebau ymchwil aelodau staff yr adran, y mae llawer ohonynt yn arbenigwyr a gydnabyddir yn rhyngwladol mewn meysydd sy'n cynnwys cerddoleg, golygu, cerddoriaeth mewn iechyd a lles, cyfansoddi (gan gynnwys cyfansoddi electroacwstig a chelf sonig, a pherfformio).

Croesewir ceisiadau yn arbennig gan fyfyrwyr sy'n dod o Gymru (neu sy'n byw yng Nghymru), neu sy'n bwriadu ymchwilio i ryw agwedd ar y gerddoriaeth Gymreig neu gerddoriaeth yng Nghymru. Fel myfyriwr doethurol yn astudio ym Mhrifysgol Bangor, byddwch yn dod yn rhan o amgylchedd ysgolheigaidd bywiog ac agos, lle mae ymchwil ym maes cerddoreg ac ymchwil seiliedig ar ymarfer yr un mor bwysig â'i gilydd. Yn ogystal â chynhyrchu ymchwil o ansawdd uchel, bydd disgwyl i chi hefyd gyfrannu at fywyd y brifysgol trwy gyflawni dyletswyddau llysgenhadol.

A hithau wedi ei sefydlu ym 1884, saif Prifysgol Bangor mewn lleoliad godidog rhwng Parc Cenedlaethol Eryri ac arfordir gogledd Cymru, ac mae ganddi gysylltiadau trafniadol gwych â Llundain (tua 3 awr yn y trênn), gogledd-orllewin a chanolbarth Lloegr, a Gweriniaeth Iwerddon.

Mae'r brifysgol yn gwerthfawrogi amrywiaeth a chydardoldeb ar bob lefel ac yn annog ceisiadau o bob rhan o'r gymuned, waeth beth oedran, anabledd, rhyw, hunaniaeth rhyw, statws priodasol neu bartneriaeth sifil, beichiogrwydd neu famolaeth, hil, crefydd neu gred a chyfeiriadedd rhywiol yr ymgeiswyr. Yn unol â'n hymrwymiad i gefnogi a hyrwyddo cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant, ac i gynyddu recriwtio ymhlith grwpiau sydd heb gynrychiolaeth ddigonol ar hyn o bryd, mae ceisiadau gan ymgeiswyr Du Prydeinig, Prydeinig Asiaidd, ethnigrwydd lleiafrifol Prydain a hil gymysg yn cael eu hannog a'u croesawu yn arbennig.

I fod yn gymwys, rhaid i ddarpar fyfyrwyr fodloni'r amodau sy'n ymwneud ag astudio am ddoethuriaeth ym Mhrifysgol Bangor. Ystyrir ceisiadau i astudio'n llawn-amser yn unig.

Bydd disgwyl i'r ymgeisydd llwyddiannus ddechrau ar ei astudiaethau ym Mangor yn yr hydref 2022 neu cyn gynted ag y bo modd wedi hynny. Mae'r efrydiaeth yn agored i ymgeiswyr cenedlaethol.

Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw **dydd Llun, 15 Awst 2022, 17:00 GMT**.



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

Cyflwynir rhestr fer derfynol o ymgeiswyr i banel, ac yna gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddod i gyfweiliad. Rhagwelir y cynhelir y cyfweiliadau **ddydd Iau, 25 Awst 2022 (i'w gadarnhau)**, ar y campws a/neu ar Zoom i'r rhai nad ydynt yn gallu teithio i Fangor. Hysbysir ymgeiswyr sydd ar y rhestr fer erbyn **dydd Gwener 19 Awst 2022 (i'w gadarnhau)**.

### MANYLION PELLACH

Dylai ymgeiswyr ystyried cysylltu â darpar oruchwyliwr cyn cyflwyno eu cais i gadarnhau bod darpariaeth oruchwylio briodol ar gael yn y brifysgol ac i drafod eu cais drafft. Ceir gwybodaeth am ddi-ddordebau ymchwil ein staff a'u manylion cyswllt yma:

- **Dr John Cunningham**, Darllenydd Cerddoriaeth: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/john-cunningham-081433/en>
- **Dr Gwawr Ifan**, Uwch Ddarlithydd Cerddoleg: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/gwawr-ifan-029559/en>
- **Yr Athro Andrew Lewis**, Athro Cyfansoddi: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/andrew-lewis-007965/en>
- **Dr Iwan Llewelyn-Jones**, Darlithydd Perfformio Cerddoriaeth: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/iwan-llewelyn-jones-125950/en>
- **Dr Guto Puw**, Darllenydd Cyfansoddi: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/guto-puw-009566/en>
- **Mr Stephen Rees**, Darlithydd Cerddoleg: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/stephen-rees-007804/en>
- **Yr Athro Pwyll ap Siôn**, Athro Cerddoriaeth: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/pwyll-ap-sion-008969/en>

### BETH FYDD YR EFRYDIAETH YN TALU AMDANO

- Bwrsariaeth o £10,000 y flwyddyn am gyfnod o dair blynedd, fel cyfraniad tuag at ffioedd dysgu a chostau cynhaliaeth.

### CYMHWYSEDD

- Dylai ymgeiswyr feddu ar gefndir academaidd rhagorol mewn cerddoriaeth (cerddoreg, cyfansoddi neu berfformio), a meddu naill ai (1) ar radd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch dda ac yn cwblhau gradd meistr mewn cerddoriaeth ar hyn o bryd, neu (2) eisoes wedi cwblhau gradd meistr mewn cerddoriaeth gyda theilyngdod neu ragoriaeth uchel.
- Gradd anrhydedd dosbarth cyntaf neu ail ddosbarth uwch cryf ac wedi cwblhau (neu wrthi'n cwblhau) gradd meistr mewn cerddoriaeth
- Mae'r efrydiaeth yn agored i ymgeiswyr cenedlaethol.
- Rhoddir ystyriaeth arbennig i ymgeiswyr sy'n Gymry neu sy'n byw yng Nghymru.

### ASESU

- Dyddiad cau derbyn ceisiadau yw **dydd Llun, 15 Awst 2022, 17:00 GMT**.
- Gwahoddir ymgeiswyr ar y rhestr fer i ddod am gyfweiliad **ddydd Gwener 19 Awst 2022 (i'w gadarnhau)**. Disgwylir cynnal y cyfweiliadau **ddydd Iau, 25 Awst 2022 (i'w gadarnhau)**.
- Caiff ymgeiswyr wybod am benderfyniad y panel erbyn **dydd Llun 29 Awst 2022**.



### SUT I WNEUD CAIS

Er mwyn gwneud cais, rhaid i chi lenwi'r ffurflen gais am fynediad i astudiaeth ddoethurol ym Mhrifysgol Bangor trwy system ar-lein y brifysgol:

<https://www.bangor.ac.uk/study/postgraduate-research/apply>

erbyn **dydd Llun, 15 Awst 2022, fan hwyraf**. Ni dderbynnir ceisiadau anghyflawn neu geisiadau a ddaw i law ar ôl y dyddiad hwn.

Rhaid i'r cais gynnwys y dogfennau canlynol:

1. Llythyr atodol: Wedi ei gyfeirio at eich goruchwyliwr arfaethedig. Rhaid i'r llythyr atodol amlinellu eich rhesymau a'ch cymhelliad dros wneud cais am Efrydiaeth Parry Williams; eich dealltwriaeth a'ch disgwyliadau o astudiaethau doethurol; eich diddordebau academaidd yn gyffredinol (yn enwedig y rhai sy'n gysylltiedig â thestun a maes eich ymchwil arfaethedig); a'ch cyfraniad posib at fywyd Prifysgol Bangor. Ni ddylai'r llythyr atodol fod yn hwy na dwy dudalen.
1. **Cymwysterau academaidd / proffesiynol:** Lle bo'n briodol, dylai hyn hefyd gynnwys prawf o Gymhwysedd Iaith Saesneg (gweler y gofynion mynediad sefydliadol).
2. **Geirdaon:** Mae angen dau eirida academaidd i gefnogi pob cais.
3. Rhaid i ymgeiswyr gysylltu â chanolwyr eu hunain a chynnwys geirdaon gyda'u cais.
4. **Curriculum Vitae:** ni ddylai fod yn hwy na dwy dudalen.
5. **Cynnig ymchwil:** Dylai'r cynnig gynnwys hyd at uchafswm o 1,500 o eiriau, heb gynnwys cyfeiriadau llyfryddiaethol. Awgrymwn eich bod yn defnyddio'r pum pennawd canlynol yn eich cynnig ymchwil:
  - Teitl, amcanion a phwrpas yr ymchwil;
  - Cyfres o gwestiynau ymchwil
  - Trosolwg ar y llenyddiaeth academaidd sy'n berthnasol i'ch maes;
  - Sut mae eich ymchwil yn bwriadu gwneud canfyddiadau newydd yn y maes hwn;
  - Methodoleg arfaethedig i'ch ymchwil;
  - Cyfraniadau academaidd eich ymchwil.
  - Llyfryddiaeth.

### SUT I WNEUD CAIS: CANLLAWIAU

Yn y system ymgeisio ar-lein, dan y tab Rhaglenni, dewiswch 'Ymchwil Ôl-radd', ac yna 'Ysgoloriaethau a Hysbysebwyd ym Mhrifysgol Bangor ...'



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

Available Programmes

Please choose the type of programme that you are interested in

Undergraduate / Bachelor Degree (BSc, BA, LLB)

Postgraduate / Taught Masters (MSc, MA, MBA, LLM)

MRes (MRes)

**Postgraduate Research (PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)**

Your own research project

**Bangor University advertised studentship**

Degree Apprenticeship

Non-graduating Applications / Stand Alone Modules

Restricted Admissions Passcode Required

Yna dewiswch **Efrydiaeth Ddoethurol Parry Williams mewn Cerddoriaeth 2022-23**  
Cofiwch sicrhau eich bod yn ychwanegu enw'r Athro Pwyll ap Siôn yn y blwch 'cyswllt academiaidd'.

Am gyngor cyffredinol am gymhwysedd a sut i wneud cais, anfonwch e-bost i:  
[cahb.pg@bangor.ac.uk](mailto:cahb.pg@bangor.ac.uk)

**Swyddog Cefnogaeth Academiaidd:** Eleri Thomas  
**Cyswllt Academiaidd yr Ysgol:** Yr Athro Pwyll ap Siôn



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

## Parry Williams Doctoral Studentship in Music 2022-23

Bangor University's Department of Music, Drama and Performance (part of the School of Arts, Culture and Language), invites PhD applications for the Parry Williams Studentship in Music.

The award will offer a bursary of £10,000 per annum for a period of three years, as a contribution towards tuition fees and maintenance.

The award is named after D. E. Parry Williams (1900-1996), the first Professor of Music at Bangor. It is funded by an endowment at the University in his memory. It is expected that the successful student will be resident in or near Bangor University throughout the course of their studies and fulfil an ambassadorial role.

Applications are invited from exceptional candidates who should either (1) hold a first class or strong upper second class honours degree and are currently completing a masters' degree in music, or (2) have already completed a masters' degree in music with high merit or distinction'. The recipient of the award will display outstanding research potential in an area of music. Applications are especially encouraged for projects that fall within the remit of staff research interests, many of whom are internationally recognised specialists in areas covering musicology, editing, music in health and well-being, composition (including electroacoustic composition and sonic art), and performance.

Applications are particularly welcome from students either from (or living in) Wales, or planning on researching into some aspect of Welsh or music in Wales. As a PhD student studying at Bangor University, you will become be part of a lively and close-knit scholarly environment in which musicological and practice-based research take equally important roles. In addition to producing high-quality research, your contribution to university life will also be in an ambassadorial capacity.

Established in 1884, Bangor University benefits from its stunning geographical location between the Snowdonia National Park and the North Wales coast, and has excellent transport links to London (around 3 hours by train), the north west of England and the Midlands, and the Republic of Ireland.

The University values diversity and equality at all levels and encourages applications from all sections of the community, irrespective of age, disability, sex, gender identity, marital or civil partnership status, pregnancy or maternity, race, religion or belief and sexual orientation. In line with our commitment to supporting and promoting equality, diversity and inclusion, and to increase recruitment of currently underrepresented groups, applications from Black British, Asian British, minority ethnicity British and mixed race British candidates are particularly encouraged and welcomed.

To be eligible, prospective students must fulfil the conditions for doctoral study at Bangor University. Applications will only be considered for full-time study.

The successful candidate will be expected to take up their studies at Bangor in the autumn of 2022, or as soon as possible thereafter. The scholarship is open to UK national candidates.

The closing date for applications is **Monday, 15 August 2022, 17:00 GMT**.

A final short-list of applicants will be put forward to a Panel, with shortlisted candidates invited to interview. It is anticipated that interviews for the scholarship will be held on **Thursday 25 August 2022**



(TBC), on campus and/or on zoom for those who are unable to travel to Bangor. Shortlisted applicants will be informed by **Friday 19 August 2022 (TBC)**.

#### FURTHER DETAILS

Applicants should consider approaching a potential supervisor before submitting their application to confirm that there is appropriate supervisory capacity within the University and to discuss their draft application. Information on the research interests of music staff and contact details can be found here:

- **Dr John Cunningham**, reader in music: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/john-cunningham-081433/en>
- **Dr Gwawr Ifan**, senior lecturer in musicology: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/gwawr-ifan-029559/en>
- **Prof. Andrew Lewis**, professor in composition: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/andrew-lewis-007965/en>
- **Dr Iwan Llewelyn-Jones**, lecturer in music performance: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/iwan-llewelyn-jones-125950/en>
- **Dr Guto Puw**, reader in composition: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/guto-puw-009566/en>
- **Mr Stephen Rees**, lecturer in musicology: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/stephen-rees-007804/en>
- **Prof. Pwyll ap Siôn**, professor in music: <https://www.bangor.ac.uk/staff/arts-culture-language/pwyll-ap-sion-008969/en>

#### WHAT THE STUDENTSHIP WILL COVER

- A bursary of £10,000 per annum for a period of three years, as a contribution towards tuition fees and maintenance.

#### ELIGIBILITY

- Candidates should have an excellent academic background in music (musicology, composition or performance), should hold either (1) hold a first class or strong upper second class honours degree and are currently completing a masters' degree in music, or (2) have already completed a masters' degree in music with high merit or distinction'
- A first class or strong upper second class honours degree and have completed (or are currently completing) a masters' degree in music
- The award is open to UK national candidates
- Particular consideration will be given to candidates who are Welsh or reside in Wales.

#### ASSESSMENT

- The closing deadline for applications is **Monday, 15 August 2022, 17:00 GMT**
- Short-listed applicants will be invited for interview on **Friday 19 August 2022 (TBC)**. Interviews are expected to take place on **Thursday 25 August 2022 (TBC)**.
- Applicants will be informed of the panel's decision by **Monday 29 August 2022**.

#### HOW TO APPLY



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

In order to apply, you must complete the application form for admission for doctoral study in Bangor University through the University's online system:

<https://www.bangor.ac.uk/study/postgraduate-research/apply>

by **Monday, 15 August 2022 at the latest**. Incomplete applications or applications received after this specified date will not be accepted.

The application must contain the following documents:

2. **Covering letter:** Please address this to your proposed supervisor. The covering letter must set out your reasons and motivation for applying for the Parry Williams Scholarship; your understanding and expectations of doctoral study; your academic interests generally (particularly of those relating to your proposed research topic and area); and your potential contribution to university life at Bangor. The covering letter should be no more than two pages.
6. **Academic / Professional Qualifications:** Where appropriate, this should also include proof of English Language Competency (see institutional entry requirements).
7. **References:** All applications require two academic references to be submitted in support.
8. Candidates must approach referees themselves and include references with their application.
9. **Curriculum Vitae:** this should be no longer than two pages.
10. **Research Proposal:** The proposal should be up to a maximum of 1,500 words, not including bibliographic references. We suggest that you use the following five headings in your research proposal:
  - Title, aims and purpose of the research;
  - Set of research questions;
  - Brief overview of the academic literature relevant to your field;
  - How your research proposes to make new findings in this area;
  - Proposed methodology for your research;
  - Academic contributions of your research;
  - Bibliographic References.

#### **HOW TO APPLY: GUIDANCE NOTES**

In the online application system, Under the Programmes tab, please select 'Postgraduate Research', followed by 'Bangor University Advertised Studentships...'



PRIFYSGOL  
**BANGOR**  
UNIVERSITY

Available Programmes

Please choose the type of programme that you are interested in

Undergraduate / Bachelor Degree (BSc, BA, LLB)

Postgraduate / Taught Masters (MSc, MA, MBA, LLM)

MRes (MRes)

**Postgraduate Research (PhD, EDD, MPhil, Masters by Research)**

Your own research project

**Bangor University advertised studentship**

Degree Apprenticeship

Non-graduating Applications / Stand Alone Modules

Restricted Admissions Passcode Required

Then select, 'Parry Williams **Doctoral Studentship in Music 2022-23**'.  
Ensure that you add Prof Pwyll ap Siôn to the 'Academic Contact' box.

For general advice about how to apply and eligibility please contact:  
[cahb.pg@bangor.ac.uk](mailto:cahb.pg@bangor.ac.uk)

**Academic Support Officer:** Eleri Thomas  
**School Academic contact:** Prof Pwyll ap Siôn